**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**1af Chwefror 2010**

**OFFER GWARCHOD PERSONOL**

**Adroddiad gan Gareth Griffiths, Uwch Reolwr Gweithrediadau**

**Diben yr Adroddiad**

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y prosiect Cymru gyfan ar gyfer caffael offer gwarchod personol (PPE).

**Cefndir**

2 Mae'r Offer Gwarchod Personol sy'n cael ei ddarparu i ddiffoddwyr tân yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn cwrdd â'r safonau Ewropeaidd perthnasol ac mae'n addas i'r diben; ond mae'n seiliedig ar fanylebau a ddatblygwyd 15 mlynedd yn ôl. Yn 2001, aeth Gogledd Cymru drwy adnewyddiad technegol o'i offer gwarchod personol, a dyfarnwyd y cytundeb chaffael a rheoli i gwmni *Bristol Uniforms* dan drefniant Fframwaith yr *Yorkshire Purchasing Organisation (YPO).*

3 Mae angen darparu offer gwarchod personol i 850 o aelodau o staff yn arbennig ar gyfer eu swyddi.

4 Mae gan GTAGC drefniadau yn eu lle i sicrhau cydymffurfiad rheoleiddiol mewn perthynas â manyleb a chynnal a chadw'r offer gwarchod personol. Fodd bynnag, mae gofyn ei ddiweddaru er mwyn lles a diogelwch staff ar yr ochr weithredol.

**Cydweithredu**

5 Mae Gwasanaethau Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin, a'r De, hwythau mewn sefyllfa i fod angen diweddaru eu hoffer gwarchod personol hwy. Mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng

Nghymru hefyd yn cydnabod y manteision ariannol sy'n bodoli o gaffael ar y cyd, ac maent yn deall pwysigrwydd un ddelwedd gorfforaethol ar gyfer y tri Gwasanaeth. Cytunwyd i fwrw ymlaen â chael offer gwarchod personol newydd ar y cyd.

6 Sefydlwyd Tîm Prosiect Cymru gyfan, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tri Gwasanaeth, er mwyn bwrw ymlaen â'r prosiect ar lefel Cymru gyfan. Mae'r tri Gwasanaeth wrthi'n cydweithio'n agos i roi'r prosiect hwn ar waith.

**Treialon gwisgo**

7 Yn ystod 2009, cafodd treialon eu cynnal trwy'r tri Gwasanaeth. Yn y Gogledd, cynhaliwyd y rhain yn Nolgellau a'r Rhyl. Nod y treialon oedd inni allu ein bodloni ein hunain fod yr offer newydd yn addas i'r diben, i hyrwyddo hyder y staff yn y technolegau newydd, ac i ddangos yr offer i staff.

8 Bu'r offer newydd yn wynebu'r amgylchiadau gwaith y mae'r staff yn eu profi ar hyn o bryd, a hynny er mwyn sicrhau bod yr offer yn darparu gwelliant o ran amddiffyniad thermol, ystyriaethau ergonomig, a cyfforddusrwydd y sawl sy'n eu gwisgo / rheoli lleithder.

9 Gwnaeth llawer o aelodau o staff GTAGC gyfraniad mawr yn ystod y broses, a'u barn hwy sy'n sail i'r fanyleb derfynol.

**Manyleb offer Cymru gyfan**

10 *Lion Apparel Systems Cyf (LAS)* fydd cyflenwyr newydd yr offer, i'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, a hynny ar ffurf Cotiau a Throwsusau Tân.

11 Mae gwisg *Lion Apparel Pro-Tek Max* yn perfformio'n hynod dda ymhob un o'r agweddau a werthuswyd. Cyrhaeddodd y brig mewn pump o blith y chwech o feini prawf a werthuswyd. Fe sgoriodd o leiaf 17% yn uwch na'r agosaf ato o ran amddiffyniad thermol.

12 Mae pob rhan o'r offer wedi ei gwneud â'r deunyddiau o'r ansawdd gorau, ac yn mynd y tu hwnt i'r safonau Ewropeaidd a'r safonau

perthnasol eraill. Mae'r cyfuniad o'r deunyddiau o'r ansawdd gorau a'r dyluniad yn golygu y bydd y staff yn cael offer gwarchod personol sy'n cynnig amddiffyniad rhagorol rhag gwres uchel a fflamau.

## Y Goblygiadau o ran y Gost

13 Prynu'r offer yn llwyr trwy un taliad cyfalaf yw'r ffordd o gaffael sy'n cael ei ffafrio, gan fod hynny'n arwain at lai o daliadau refeniw dros gyfnod y cytundeb 7 mlynedd. Hefyd, trwy brynu'n llwyr, mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn berchen ar yr ased ar unwaith. Mae hynny'n lleihau'r perygl petai gwydnwch busnes y gwneuthurwyr yn dioddef yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

## Gwaith Golchi a Gofalu

14 Er mai'r Awdurdod fydd berchen yr offer gwarchod personol, bydd *Lion* yn darparu'r gwaith golchi, trwsio ac archwilio trwy gydol oes yr offer, a hynny dan gytundeb pris sefydlog. Bydd pob eitem yn cael ei olrhain trwy system cod-bar fel bod modd cael cofnod o hanes pob eitem.

15 Mae *Lion Apparel* yn cynnig ffi flynyddol sefydlog am y gwaith gofalu. Mae hynny'n cynnwys danfon a chasglu o 7 lleoliad trwy'r Gogledd bob wythnos.

16 Trwy wneud archwiliadau bydd modd sicrhau bod unrhyw waith trwsio angenrheidiol yn cael ei wneud a'i gofnodi. Bydd modd dilyn ac olrhain trwy'r gefnogaeth gofal cwsmer fel rhan o'r cytundeb.

17 Trwy'r system gwaith gofalu, gellir sicrhau bod yr offer yn "addas i'r diben" pryd bynnag y caiff ei wisgo.

18 Ar hyn o bryd, nid yw cost y gwaith golchi / cynnal a chadw a thrwsio gyda'r cyflenwr presennol yn un sefydlog, ac mae'n £84,000 y flwyddyn ar hyn o bryd. Mae'r gost yma wedi ei seilio ar yr angen cynyddol i drwsio a chynnal a chadw fel mae'r eitemau'n mynd yn hŷn.

19 Mae cost y cytundeb pris sefydlog gyda *Lion* oddeutu 50% llai na chost cynnal a chadw presennol yr offer.

20 Prif fantais ffi flynyddol sefydlog yw ei fod yn darparu gwariant refeniw cyson bob blwyddyn. Mae ffi sefydlog ar gyfer y gwasanaeth gofalu yn golygu bod y Gwasanaeth yn gallu osgoi llawer o'r baich gweinyddol a'r costau cysylltiedig.

**<u>Cytundeb Cymru gyfan</u>**

21 Mae tîm y prosiect wedi llunio cytundeb drafft ar gyfer caffael yr offer gwarchod personol a'r gwasanaeth gofalu. Mae'r gwaith o lunio'r cytundeb drafft wedi manteisio'n fawr ar arbenigedd staff unedau caffael y tri Gwasanaeth.

22 Bydd y cytundeb drafft ar gyfer y tri gwasanaeth yn cael ei archwilio gan ymgynghorwyr cyfreithiol Gwasanaeth Tân ac Achub y De, gan y byddant hwy'n gallu darparu ymateb sydyn, ac nid oes unrhyw wrthdrawiad buddiannau. At hynny, bydd un farn gyfreithiol yn cyflymu'r broses o lofnodi'r cytundeb.

**<u>Crynodeb</u>**

23 Mae sawl mantais yn dod o gael un fanyleb trwy Gymru, megis yr angen i gadw llai o stoc trwy'r tri Gwasanaeth, a llwyddo i gael un ddelwedd gorfforaethol ar gyfer yr holl ddiffoddwyr tân yng Nghymru.

24 Mae'r cydweithio llwyddiannus rhwng y tri Gwasanaeth a *Lion Apparel* yn golygu bod modd cyflwyno nodau'r prosiect yn gyflym ac yn effeithlon. Erbyn diwedd Ionawr, bydd y gwaith o fesur a ffitio staff yr ochr weithredol trwy Gymru bron wedi ei gwblhau. Rhagwelir y bydd y Gwasanaeth yn dechrau rhoi'r offer ar waith fesul cam yn Ebrill 2010.

**ARGYMHELLIAD**

25 Gofynnir i'r aelodau nodi'r wybodaeth a ddarperir.